# Y Trydydd Cynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (228)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 16 Tachwedd 2010**
**Amser: 13.30**

### Eitem 1: Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 9 yn ôl.

………………………

### 14.24
### Eitem 2: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

………………………

### 14.42
### Eitem 3: Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Adroddiad ar yr Adolygiad o'r Tribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru

………………………

### 15.01
### Eitem 4: Dadl ar Fudd-dal Tai

### NDM4587 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth yr effaith y byddai'r newidiadau y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu eu cyflwyno i fudd-daliadau yn ei chael ar y bobl dlotaf yng Nghymru;

2. Yn cymeradwyo'r gwaith y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud wrth gydweithio â sefydliadau eraill er mwyn helpu i ddiwallu anghenion pobl am dai.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

"*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1) Yn nodi newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i fudd-dal tai a'r angen am system decach;*

*2) Yn cymeradwyo gwaith y Sector Tai yng Nghymru, ac yn gresynu wrth raddfa'r problemau tai yng Nghymru a achoswyd gan bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ers 1999*".

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 36 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"*Yn nodi addewid maniffesto etholiad 2010 y blaid Lafur y byddai Budd-dal Tai yn cael ei ddiwygio i sicrhau nad ydym yn rhoi cymhorthdal sy'n caniatáu i bobl fyw yn y sector preifat am rent na allai teuluoedd arferol sy'n gweithio mo'i fforddio*".

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 31 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"*Yn credu bod methiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyrraedd ei thargedau i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn sylweddol yn rhoi straen ychwanegol ar farchnadoedd tai cymdeithasol a fforddiadwy*".

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 30 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

## NDM4587 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth yr effaith y byddai'r newidiadau y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu eu cyflwyno i fudd-daliadau yn ei chael ar y bobl dlotaf yng Nghymru;

2. Yn cymeradwyo'r gwaith y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud wrth gydweithio â sefydliadau eraill er mwyn helpu i ddiwallu anghenion pobl am dai.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 17 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

## 15.51
## Eitem 5: Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**NDM4585 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Yn croesawu adroddiad 2009/10 y Comisiynydd Pobl Hŷn y cafodd copi ohono ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Tachwedd 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

………………………

## 16.26
## Eitem 6: Dadl ar effaith gymdeithasol yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant

### NDM4586 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau cyhoeddus effeithiol wrth ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau ac yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gymdeithas deg sydd wedi'i hadeiladu ar sylfeini cadarn cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;

2. Yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gresynu bod llywodraeth y DU yn diystyru canlyniadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yng Nghymru ar y rhai hynny sy'n derbyn ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus o'r fath.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ym mhwynt 1 dileu:

"*ac yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gymdeithas deg sydd wedi'i hadeiladu ar sylfeini cadarn cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal*".

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 31 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

"*Yn cydnabod y bydd y newidiadau sy'n cael eu cynnig yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gan Lywodraeth y DU yn gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer cefnogaeth dychwelyd i waith*".

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 1 | 31 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"*Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i adeiladu cymdeithas deg*".

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 31 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

### NDM4586 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau cyhoeddus effeithiol wrth ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau ac yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gymdeithas deg sydd wedi'i hadeiladu ar sylfeini cadarn cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;

2. Yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gresynu bod llywodraeth y DU yn diystyru canlyniadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yng Nghymru ar y rhai hynny sy'n derbyn ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus o'r fath.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 0 | 16 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

### 17.10
### Cyfnod pleidleisio

**Daeth y cyfarfod i ben am 17.13**

………………………

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mercher 17 Tachwedd 2010.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**